

Wastad ar y blaen

“Y mae’n mynd o’ch blaen chwi i Galilea.” (ad. 7)

Beth am ddarlennu Marc 16: 1–8 ac yna myfyrio

Pan fu imi ddeall gyntaf bod stori ddwyfol yn cael ei sgwennu ym mywyd pob crediniwr, fe newidiodd hynny fy holl agwedd fel bugail a chynghorwr. Pan oeddwn i’n weinidog ifanc, mae’n rhaid i mi gyfaddef fy mod i’n cael fy niflasu wrth wrando ar bobl yn sôn am eu problemau personol. Yna un dydd, wrth baratoi pregeth Basg, fe siaradodd yr Arglwydd â mi yng ngeiriau’r testun ar gyfer heddiw: “Y mae wedi ei gyfodi ... y mae’n mynd o’ch blaen chwi i Galilea.”

Wrth imi astudio’r darn hwn fe wawriodd hi arnaf, pryd bynnag y byddwn yn eistedd i lawr gyda rhywun i wrando ar eu problemau personol, *bod y Crist atgyfodedig wedi mynd yno o’r blaen i*. Yr oedd o ym mywyd y person, yn gwneud rhywbeth yn dweud rhywbeth, yr oedd angen i mi ei ddeall gyda chymorth yr Ysbryd Glân. Fe sylweddolais i nad fy ngwaith i oedd chwarae rhan fugeiliol draddodiadol, darllen ychydig adnodau a gweddïo, ond bod yn effro i’r stori roedd Duw yn ei sgwennu ym mywyd y person hwnnw.

Cyn gynted ag y deuthum i’n ymwybodol mai cerdded i mewn ar rywbeth oedd eisoes ar waith oeddwn i, ac na ddylid edrych ar y digwyddiadau ym mywyd person fel problemau unigol ond fel rhan o stori oedd i barhau, fe newidiodd cynghori wedyn i mi o fod yn weithred ddfilas i fod yn rhywbeth hynod gyffrous oedd yn ysgogiad imi. Fy ngwaith i wedyn oedd helpu unigolion i ddehongli y stori honno, a’u hannog i fynd yn eu holau dros ryw linell neu hyd yn oed dudalen yr oedden nhw wedi ei fethu neu wedi ei chamddarlennu er mwyn dod o hyd i ryw ran hanfodol o’r cof. Fe wnes i ddarganfod, po fwyaf oedd pobl yn ei ddeall bod stori fwy yn cael ei datgelu y tu hwnt i stori eu bywydau nhw, yna gymaint fwy cynhyrchiol oedd y cwnsela. Dyma un o’r cysyniadau mwyaf nerthol a mwyaf abl i drawsnewid. Yr ydym ni’r hyn ydym ni oherwydd y stori ddwyfol sy’n cael ei sgwennu yn ein bywydau.

Beth am fynd ymlaen i ddarlennu:

Exodus 13:21;
Marc 10:32–34

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa gymorth a gawn ni gan y Duw sydd wastad ar y blaen?
2. Beth ddylem ni fod yn barod i’w dderbyn oddi wrth yr hwn sydd ar y blaen?

Gweddï O Arglwydd, rydw i angen mwy o oleuni ac arweiniad ar y mater yma. Rwy’n gofyn iti olchi fy llygaid a glanhau fy nghalon er mwyn imi gael gweld. Dangos imi mewn llythrennau eglur, clir dy fod ti, beth bynnag sy’n digwydd imi, wastad ar y blaen. Amen.